tafod elái

MAWRTH 2009

Rhif 235

Pris 60c

Gwledd o Sioe

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n ymwneud â chynhyrchiad Gweithdai Bro Taf o'r 'Dyn na'th ddwyn y 'Dolig' a lwyfannwyd yn Theatr yr Institiwt, Cwmaman ar ddiwedd Ionawr. Cafwyd sioe llawn bwrlwm ac roedd yn amlwg bod y plant wrth eu boddau'n cymryd rhan.

Angen trosglwyddo cyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg i'r Cynulliad

Bydd y mesur sy'n cael ei drafod gan y Cynulliad a'r Senedd yn Llundain ar hyn o bryd yn rhoi hawliau i'r Cynulliad ddeddfu i gryfhau statws yr iaith Gymraeg. Ond mae pryder na fydd Aelodau Seneddol yn Llundain yn fodlon i hyn ddigwydd.

Os ydych yn credu fod angen cael yr hawl yma yng Nghymru i ddeddfu ar yr iaith Gymraeg yna mae modd i chi ddylanwadu ar y gwleidyddion drwy fynd i wefan www.dathlu.org a sefydlwyd gan 17 o gyrff sy'n aelodau o Mudiadau Dathlu'r Gymraeg. Mae'r mudiadau yn croesawu rhannau helaeth o gynnwys y gorchymyn deddfwriaethol ar yr iaith Gymraeg ac maent yn galw am gefnogaeth i'r Gorchymyn ac yn rhybuddio y byddai ei wanhau yn niweidiol i'r Gymraeg.

Yn ôl y Mudiadau mae cynnwys y gorchymyn iaith fel y saif hi yn cynnig potensial a allai wneud gwahaniaeth i hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd. Byddai gwanhau a lleihau rhychwant y gorchymyn iaith yn anghyfiawnder i hawliau bob un boed yn siarad Cymraeg ai peidio.

Mae dyletswydd ar Aelodau Seneddol ac Aelod Cynulliad i sicrhau eu bod yn amddiffyn cynnwys y gorchymyn ac yn galw am fwy o hawliau i sicrhau dyfodol yr iaith. Hawliau i bawb o bobl Cymru i'r Gymraeg ydy rhain. Ni ddylai fod gan San Steffan yr hawl i warafun yr hawliau hynny i ddinasyddion Cymru.

Cofiwch fod carfan o bobl yn parhau i wrthod i'r iaith Gymraeg gael ei lle teilwng ym mywyd ein gwlad. Gallwch chi wneud gwahaniaeth drwy fynd i wefan www.dathlu.org a chofnodi eich dymuniad.

Y fenter fawr nesaf i Weithdai Bro Taf, yn ogystal ag Eisteddfod Sir yr Urdd, yw perfformio yn yr Ŵyl Ddawns Ryngwladol ym Majorca ym mis Ebrill. Mae hon yn daith gostus ac felly mae nifer o weithgareddau codi arian ar y gweill megis pacio bagiau yn TESCO a pherfformio i'r siopwyr yng Nghanolfan McArthur Glen, ger Pen-y-bont.

Teulu'r Mordecai fu'n ceisio dwyn y Nadolig

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353
DOSBARTHU
John James 01443 205196
TRYSORYDD
Elgan Lloyd 029 20842115
CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 3 Ebrill 2009
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
25 Mawrth 2009

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg
Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Mallt Anderson
'Y Dywysoges Gwenllian'

8.00yh Nos Fercher
11 Mawrth

Ysgol Creigiau

Am ragor o fanylion, ffoniwch:
01443 297583

Gigs Clwb y Bont

Cwrw a Chân

Côr Merched y Garth

8yh 13 Mawrth 2009

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

RIVERVIEW CHIROPRACTIC

81 HOPKINSTOWN ROAD,
PONTYPRIDD, CF37 2PS

01443 650634

AM DRINIAETHAU EFFEITHIOL AM BOEN

GWDDF A CHEFN
PEN TOST
YSGWYDDAU A PHEN-GLINIAU
"WHIPLASH"
SCIATICA
AC
ANAFIADAU CHWARAEON

YN OGYSTAL AG ASESIAD
IECHYD LLAWN
MEWN AWYRGYLCH
HAMDDENOL A GLAN

DR OLWEN A GRIFFITHS
BSc. (HONS) CHIRO

GCC & BCA COFRESTRIEDIG

CYLCH CADWGAN

BETHAN GWANAS
yn trafod agweddau ar ei gwaith

Yn Festri Bethlehem,
Gwaelod y Garth.
Nos Wener, 27 Mawrth 2009
am 8.00pm

Cydnabyddir cefnogaeth
yr Academi Gymreig

Manylion pellach:
029 20891577

CLWB Y DWRLYN

Cinio Gŵyl Ddewi

Clwb Golff Radur
12.30, Dydd Sul,
8 Mawrth

Gwybodaeth bellach:
029 20890314

Angela Cavil D.O. & Associates



Sefydlwyd 1988

Rydym yn darparu Triniaeth Effeithiol a Phroffesiynol ar gyfer:
Anafiadau Chwaraeon · Poen Cefn · Nerf Clwm · Anafiadau Clun a Pen-glin · Pen Tost Tyndra · Poenau Gwddf ac Ysgwydd · Osteoathritis · Chwiplach · Babanod a Phlant

Ymweliadau Cartref
ac Apwyntiadau yn yr Hwyr,
Darparu Adroddiadau Meddygol,
Gofrestrwyd gyda BUPA a PPP.

Ffôn: 01443 485302
www.pontypriddosteopaths.co.uk
9 Gelliwastad Road, Pontypridd
CF37 2BW (dros ffordd i'r Miwni)

Aelod o GOsC a BOA

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

TRYCHINEB
Daeth ton fawr o dristwch dros y cwm pan glywodd pobl mai dwy ferch o Gilfach Goch oedd y merched a laddwyd yn y ddamwain pan syrthiodd dwy awyren yng Nghynffig. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teuluoedd - Ridgena, Rhian a Thomas mam chwaer a brawd Katie-Jo a Gerwyn, Katurah a Narthan, tad mam a brawd Nikkita Walters. Dyma'r drydedd brofedigaeth o golli plentyn i fam Katie-Jo. Bu farw Sara Beth o lewcemia a bu farw Jack yn fabi yn ei grud. Mae'n anodd credu'r peth!.

EGLWYSI AR Y CYD
Cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig nos Sadwrn Chwefror 7fed yn y Ganolfan Gymdeithasol yn Evanstown, pan ddaeth eglwysi Tonyrefail a'r Gilfach at ei gilydd i gynnal Gwasanaeth ar y cyd. Ar derfyn y Gwasanaeth roedd cwpanaid o de a theisen a chyfle i bawb gael sgwrs. Diolch i eglwys y Dyfroedd Byw am drefnu'r noson. Bwriedir cynnal rhagor o wasanaethau tebyg yn y dyfodol.

Y GANOLFAN GYMUNEDOL
Cynhaliwyd Cynllun Chwarae yn y Ganolfan dros y Gwyliau Hanner Tymor. Roedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael a digon o ddewis i bawb gan gynnwys plannu blodau mewn potiau, gweithdy syrcas, crefftau, coginio, addurno crysau-T ac ati. Ar y Nos Lun roedd perfformiad gan Syrcas Berzercus i blant ac oedolion ac roedd yn fendigedig ac roedd pawb wedi mwynhau.

Mae llawer o gyrsiau yn cael eu cynnal yn y Ganolfan gan gynnwys Technoleg Gwybodaeth. Gwneud cardiau a ffotograffiaeth ddigidol. Os am ragor o wybodaeth ffoniwch y Ganolfan ar 675004.

Mae'r Ganolfan yn pryderu am iddynt golli Grant tuag at eu gwasanaeth Cynghori. Teimlant ei fod yn bwysicach nawr nag erioed gan fod cymaint o ddiweithdra, a mwy i ddod, ac maen nhw'n cynghori pobl sydd newydd golli gwaith. Gobeithio y cant y grant yn ôl

Clwb Rygbi Gilfach Goch yn erbyn Castell Nedd
Rownd 5 Cwpan SWALEC
Sadwrn Ionawr 24
Diwrnod bythgofiadwy i Glwb Rygbi Gilfach Goch gyda'r parc yn llawn cefnogwyr brwdfrydig. Y sgôr hanner amser oedd Castell-nedd 16 Gilfach Goch 3 gyda phwyntiau Gilfach yn dod o'r maswr Gareth Walters. Gêm gyffrous, gyflym a chaled i'r cwm gydag amddiffyn rhagorol o bob un chwaraewr ond fe ddaeth y breuddwyd i ben a'r sgôr derfynol oedd Castell-nedd 44 Gilfach Goch 3. Enwyd Adam Priday fel seren y gêm i Gilfach Goch.

Croeso mawr Castell-nedd i'n cwm bach ni
Gilfach Goch yw'r enw llawn hanes di-ri
Ond heddiw rygbi yw'r gêm ac ennill yw'r gôl
Y cwpan SWALEC a dyn ni ar ei hol
I addurno'n clwb rygbi yn nwy fil a naw
Gawn ni gêm fythgofiadwy
Gawn ni gyd ysgwyd llaw.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Pen-blwydd Arbennig
Llongyfarchiadau i Gareth Evans, Nantcelyn (Prifathro Ysgol Gynradd y Dolau) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig.

Swydd Newydd
Llongyfarchiadau i Siôn, mab Cliff ac Eifiona Hewitt, Penywaun ar gael ei benodi'n uwch gynorthwywr cyfrifon i gwmni sy'n dosbarthu dillad cynllunwyr dros Ewrop gyfan. Pob hwyl iti Siôn yn dy swydd newydd.

Y TABERNACL

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Elain a Prys Davies ar enedigaeth mab bach, Gwern Teifi, fore Mercher, Chwefror 4ydd. Brawd bach i Hedd Teifi ac ŵyr arall i Sara a Geraint Wyn Davies.

Gwellhad Buan
Dymunwn yn dda i Nia Donolly, Meisgyn sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod y mis.

Y Noson Acwstig
Bu'r Noson Acwstig yng nghwmni Siriol Burford, Steve Preston a Huw Roberts yn Neuadd y Pentref yn llwyddiant mawr. Roedd canmol mawr i'r adloniant a'r bwffe, a chodwyd dros £300 ar gyfer ymgyrch De Affrica. Lluniau ar dudalen 4.

Merched y Capel
Daeth nifer dda o wragedd ynghyd ar brynhawn Mawrth y ddegfed o Chwefror i Ganolfan Arddio, Efail Isaf ar ôl gorfod gohirio'r cyfarfod yr wythnos cynt oherwydd yr eira. Fe wnaeth pawb fwynhau paned ac fe fu trafod brwd wrth drefnu rhaglen y tymor. Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ar Fawrth 11eg.

Dathlu yn y Tabernacl
Roedd yna lawenydd mawr ymhlith aelodau'r Tabernacl pan ddaeth y newydd fod Cronfa Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol y Cynulliad wedi dyfarnu £300,000 i'r eglwys ar gyfer ailwampio'r festri i fod yn ganolfan gymunedol.

Diolch o galon i'r swyddogion sydd wedi bod yn gweithio'n ddyfal i gael y swm anrhydeddus hwn. Mae gobaith y bydd y ganolfan gymunedol yn barod i'w defnyddio erbyn mis Tachwedd 2010.

Actorion o fri!
Bu amryw o blant Y Tabernacl sy'n aelodau o Adran Bro Taf yn cyflwyno'r sioe "Y dyn na'th ddwyn y 'Dolig" yn y Theatr y Stiwt yng Nghwmaman, Aberdâr ar Nos Sadwrn a Sul 31 Ionawr a 1 Chwefror. Roedd sglein ar y perfformiad a phob un o'r plant i weld yn mwynhau'r profiad o berfformio ar lwyfan theatr. Ardderchog wir. Llongyfarchiadau cynnes i bawb.

Twmpath Dawns
Peidiwch ag anghofio'r Twmpath dawns, y cawl a'r Noson Lawen yn Neuadd Pentyrch ar Nos Wener, Mawrth 6ed am 7 o'r gloch. Aelodau Teulu Twm sy'n trefnu'r noson a gellwch gysylltu â Rhiannon neu Bethan am wybodaeth bellach.

Trefn yr oedfaon ar gyfer mis Mawrth
Mawrth 1af Gwasanaeth Cymun o dan ofal Y Gweinidog ac aelodau Teulu Twm
Mawrth 8fed Y parchedig Aled Edwards
Mawrth 15fed Mr Allan James
Mawrth 22ain Oedfa Deuluol, Sul y Mamau
Mawrth 29ain Mr Emlyn Davies

Priodas



Ar 21 Rhagfyr 2008, priodwyd Elisa Jones ag Owen Knight yng Ngwesty Morgans, Abertawe. Dafydd Chapman ac Ian Curtis oedd y gweision priodas ac Ella Curtis, plentyn bedydd Owen, yn forwyn briodas. Roedd diwrnod y briodas yn gyffrous ac yn hwylus iawn yn ogystal â llawn pefriad y tymor. Fe aeth y pâr priod i sgio yn y Swisdir ar eu mis mêl. Mae Elisa yn athrawes ddaeryddiaeth yn Ysgol Bryn Celynnog ac mae Owen yn Gyfarwyddwr Cysylltiol gyda Beaufort Research yng Nghaerdydd. Maen nhw wedi ymgartrefu yn St David's Manor, Pentre'r Eglwys.

CD Glenda Clwyd

Ysgol y Creigiau yn dysgu am baratoi Newyddion yn y BBC gyda Derek Brockway tu ôl i'w gyfrifiadur.

Y Noson Acwstig yn Neuadd Efail Isaf .

Ar y chwith: Siriol Burford, Steve Preston, Robert Jones a Donny Sweeney .

Ar y dde: Huw MM



Ddydd Llun, yr 8fed o Chwefror, fe ddaeth Theatr Bypedau Cymru i'r ysgol i berfformio "Jyngl Jingl Jangl" i ddisgyblion y Feithrinfa a dosbarthiadau 1 a 2. Roedd hi fel bod mewn jyngl go iawn wrth i'r mwnci, y jiráff, y neidr, y llew, y teigr, y crocodeil, y llewpart a'r ddau barot ymuno â ni am y bore! Gwahoddwyd Alice, Rhiannydd, Bethan, Aled, Gwen, Ania, Betsan ac Elina i arddangos eu sgiliau cerddorol drwy chwarae offerynnau taro a siglo arbennig. Roedd pawb wrth eu boddau yng nghanol y cymeriadau hoffus!

Fe drefnodd Pwyllgor Eco'r Ysgol "Wythnos Bwyta'n Iachus" er mwyn annog mwy o blant i ddod â byrbrydau maethlon fel ffrwythau i'r ysgol. Gosodwyd cystadleuaeth i ddod o hyd i'r dosbarth mwyaf "iachus" – fe fu'n gystadleuaeth gref! Rhaid aros nawr am y canlyniadau! Fe ddatgelwn y canlyniadau yn y rhifyn nesaf!

Wedi hir ddisgwyl, fe ddaeth yr eira! Caewyd yr ysgol ar y 5ed o Chwefror gan nad oedd y safle'n ddiogel i'r plant nac i'r staff. Doedd fawr o gwyno – roedd pawb wrth eu boddau'n cael y cyfle i fynd allan i gerdded a chwarae yn y powdwr gwyn.

Yn ddiweddar, mae disgyblion Dosbarth 2 wedi mwynhau derbyn gwersi ymarfer corff gan Mrs. Sioned Roberts. Mae Mrs Roberts wedi bod yn dod atom o dan y cynllun addysg A.G.Ch.Y. Yn yr un modd, mae Mr Nick Stenner wedi bod yn dysgu rhai o ddisgyblion Class 2. Gobeithio bod Mrs. Roberts a Mr Stenner wedi mwynhau cymaint â'r plant. Diolch i'r ddau.

Mae Cerddorfa'r Ysgol wedi bod yn ymarfer yn wythnosol ers blynyddoedd bellach ac mae'n braf iawn gweld un o gyn-ddisgyblion yr ysgol, sef Geraint Herbert, wedi dychwelyd nôl atom fel yr arweinydd. Croeso nôl Geraint a phob hwyl!

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed ar ei lwyddiant diweddar. Mae'r chwaraewyr wedi bod yn brysur iawn yn ymarfer ac yn cystadlu. Cawsant fuddugoliaeth yn erbyn Tonysguboriau. Sgoriwyd y gôliau gan Sam Curwen a Marcus Gallo. Dyfarnwyd gôl Sam fel gôl y mis gan Mr. Brian Evans a'r chwaraewyr!

Llongyfarchiadau iddynt hefyd ar eu perfformiad yng nghystadleuaeth yr Urdd yng ngerddi Soffia.

Aeth tîm rygbi tag yr ysgol i gystadleuaeth yn Ysgol Gyfun Radur oedd wedi ei threfnu gan Gleision Caerdydd. Enillwyd pob gêm! Llongyfarchiadau mawr iddynt hwythau hefyd!

BBC

Bu Tîm Papur Newyddion yr ysgol ar ymweliad â stiwdio'r BBC yn ddiweddar i weld newyddiadurwyr proffesiynol wrth eu gwaith. Cawsant gyfle i gyfarfod â Derek Brockway a chymryd rhan ar y rhaglen Ffeil.
Cafwyd hwyl hefyd yn gweld Mrs James yn parcio ei char yn y safle sy'n cael ei gadw fel arfer i Jamie Owen!
Diolch yn fawr i Mrs Davies ac i Mrs James am fynd â'r plant yno ac i Mr. Huw Roberts am drefnu'r ymweliad.

Telynores yn Lansio CD Newydd

Mae'r delynores boblogaidd Glenda Clwyd yn lansio CD newydd fydd yn rhoi gwir flas ar gerddoriaeth Cymru ac sy'n cyrraedd y siopau erbyn penwythnos Dydd Gŵyl Dewi eleni. Enw'r ddisgen yw 'O'r Galon' - detholiad o hoff alawon Cymru ar y delyn. Gallwch wrando ar:- Ar Hyd y Nos, Ar Lan y Môr, Hiraeth, Mentra Gwen, Clychau Aberdyfi ac ati ar y CD. Mae tameidiau ohoni i'w clywed ar wefan Glenda www.glendaclwyd.co.uk

Yn ymuno a hi ar y ddisgen i godi'r hwyl yn y dawnsiau gwerin mae'r ffidlwr o Gaerdydd, Selyf Edwards, yn wreiddiol o Gaerfyrddin ac a fagwyd ym Mhontarddulais.

Yn wreiddiol o Fagillt, Clwyd mae Glenda bellach wedi ymgartrefu ym Mhentre'r Eglwys ger Pontypridd. Mae 'O'r Galon' wedi ei gyflwyno i'w theulu wedi eu dotio o amgylch Cymru – o Glwyd i Wynedd ac o Bowys i Ddyfed.

Efallai y cofiwch Glenda fel cyflwynwraig a merch tywydd ar S4C yn y nawdegau.

Mae ei gyrfa fel telynores yn cynnwys teithio ar hyd a lled Cymru yn hybu'r delyn a cherddoriaeth Cymraeg gyda sioeau, gweithdai a chyngherddau.

Bydd y CD 'O'r Galon' yn cael ei lansio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar 19eg Chwefror 2009.

Gallwch gysylltu â Glenda am fanylion pellach:-
Ffon symudol 079 0979 6064
E bost glenda@glendaclwyd.co.uk

Newyddion Dysgwyr Morgannwg

Mae hanner tymor cyntaf 2009 wedi bod yn un tawel o ran digwyddiadau i ddysgwyr Morgannwg ond prysur o ran gwaith. Daeth dros hanner cant i Sadwrn Siarad llwyddiannus iawn a gynhaliwyd yn ysgol Santes Tudful, Merthyr Tudful ddydd Sadwrn 24ain Ionawr a braf oedd gweld nifer o wynebau newydd yno. Roedd nifer sylweddol wedi taro i mewn i'r Clwb Cinio yng Ngholeg Pen-y-bont hefyd ac roedd yn hyfryd croesawi rhai am y tro cyntaf.

Er bod yr eira wedi achosi tipyn o broblemau yn ddiweddarach yn ystod y mis llwyddodd nifer o'r dysgwyr sefyll arholiad Mynediad ddydd Gwener 30 o Ionawr.

Ddydd Sadwrn 14 Chwefror cwrddodd y Clwb Cerdded am ei ail daith eleni – y tro yma ym Mhontypridd. Gwyn Griffiths oedd yr arweinydd a chawson ni daith ddiddorol iawn ar gyrion y dref o Drefforest i fyny i Gomin Pontypridd, i lawr i amgueddfa'r dref cyn dychwelyd trwy barc Ynysangharad. Mae gan Gwyn wybodaeth helaeth am hanes lleol ac fe ddysgon ni lawer am gysylltiadau'r dref gyda Evan a James James a'r Doctor William Price. Roedd pawb wedi mwynhau'r daith yn fawr iawn a gobeithio y bydd e'n arwain taith arall i ni eto'n fuan. (Llun Tudalen 13).

Dyma restr o weithgareddau mis Mawrth. Os hoffech chi fwy o wybodaeth, ymuno â ni neu dderbyn gwybodaeth am ein gweithgareddau'n rheolaidd cysylltwch a fi: smorgan2@glam.ac.uk/07990578407

MAWRTH

3 Clwb Cinio - 1 o'r gloch caffi Just Because, Pontyclun
4 Swper Gŵyl Dewi, Coleg Morgannwg -7 o'r gloch
7 Sadwrn Siarad – 9.30 - 3.30 canolfan gydol oes Gartholwg – bydd Lyn Ebenezer awdur 'Noson yr Heliwr' yna 1.30 – 3.30
Dyddiad cau: 27/2/09
13 Eisteddfod y Dysgwyr - 7 o'r gloch Gartholwg
14 Bore i'r Teulu – 10-12 Canolfan Hamdden Pen-y-bont
Clwb Cerdded 10.30 – Aberdâr
25 Clwb Cinio Pen-y-bont – 12 o'r gloch bwyty'r Tymhorau, Coleg Pen-y-bont. RHAID BWCIO: 01656 302412

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

CYDYMDEIMLAD
Cydymdeimlwn yn ddwys â David, Anne ac Helen Ashmore yn dilyn marwolaeth tad David yn 89 mlwydd oed. Anrhydeddwyd Mr. Frank Ashmore â'r M.B.E. ddeugain mlynedd yn ôl am ei waith gyda phobl ifanc. 'Roedd yn ynad heddwch a bu'n athro a dirprwy brifathro yn Ysgol St, Cyres, Penarth. Cynhaliwyd gwasanaeth coffa yn Eglwys Methodistaidd Penarth ddiwedd Ionawr.

LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau i Helen W. Ashmore ar ennill cymhwyster fel cyfreithwraig yn arbenigo mewn prosiectau ariannol rhyngwladol gyda chwmni Norton Rose. Ar hyn o bryd mae Helen allan yn Hong Kong ar secondiad ond bydd yn dychwelyd ym mis Mawrth. Dymunwn yn dda iddi yn ei gyrfa.

GYRFA CHWIST
Enillwyr Gyrfa Chwist y Dwrlyn oedd Jen Macdonald a Cerith Davies, y ddau yn ennill gwobr o ffowlyn yr un (a hynny nid am y tro cyntaf!). Felly 'doedd dim angen iddyn nhw boeni am ginio Sul unwaith eto!

Bu'n noson hwyliog a diolch i Jim Morris am drefnu.

Llongyfarchiadau mawr …
… i Amy Coombes ar berfformiad hollol wych fel Eira Wen ym Mhanto cwmni Owen Money – 'Snow White' - sy wedi bod yn llenwi theatrau ledled de Cymru am dros dri mis. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol!

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Genedigaethau
Llongyfarchiadau mawr i Peter a Joanne Davies, Tonysguboriau ar enedigaeth merch fach. Ganwyd Annie Beth ar noson Nadolig – anrheg perffaith i'r teulu bach. Mae Annie Beth yn wyres gyntaf i Gwenda a John Voisey.

Pâr arall sy'n dathlu yw Arwel a Rhian Davies. Ganed mab bach iddyn nhw o'r enw Harri…ŵyr cyntaf i Glenys a Roy Davies, Meisgyn.

Ddydd Mercher 4 Chwefror ganed Gwern Teifi. Mae Gwern yn fab i Elain Haf a Prys Davies, Llantrisant. Mae'n siŵr fod Hedd Teifi wrth ei fodd gyda'i frawd bach – felly hefyd Geraint a Sarah Davies, Groesfaen fydd yn edrych ymlaen at gael gwarchod ŵyr bach arall. Llongyfarchiadau gwresog i chi fel teulu.

Ychydig ddiwrnodau yn ddiweddarach ganed Donal James Lewis Adlam. Mae Donal yn fab i Emyr a Denise Adlam, Pentre'r Eglwys ac yn frawd bach i Áine. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

Radio Cymru
Llais cymharol newydd i donfeddi Radio Cymru yw Daniel Swayne, Llantrisant gynt. Ers rhai blynyddoedd bellach mae Daniel wedi bod yn gweithio ac yn hyfforddi yn Llundain fel cerddor. Yn ddiweddar mae i'w glywed yn trafod cerddoriaeth Jazz ar C2 Radio Cymru.

TAITH ANTUR
Wrth i Tafod Elái fynd i'r wasg roedd Mark Morgan, Meisgyn, newydd fentro ar daith herfeiddiol i Ogledd Canada. Y nod oedd codi cymaint o arian â phosib i elusen Help for Heroes. Yr her i Mark ac un ffrind arall oedd cwblhau ras yr Yukon Arctic Ultra - sef marathon can milltir trwy'r eira mawr a'r rhew a hynny o dan amodau digon anffafriol. Dymuniadau gorau iddo a gobeithio y clywn ni sut aeth y daith yn y rhifyn nesaf. Os hoffech chi noddi Mark, yna cysylltwch â Ceri, fydd yng ngofal y golofn fis nesaf.

Ydych chi yn berchennog tŷ? Oes gennych chi blant?
Ydych chi wedi ystyried gwneud ewyllys?

City Legal
5 Gold Tops, Casnewydd, NP20 4PG

Cwmni lleol sydd yn cynnig cyngor cyfreithiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Ewyllys sengl am £50 + TAW
- Prynu a gwerthu tai ac ailforgeisio
- Ysgariad a chyfraith teulu
- Cyngor methdalu
- Eiddo masnachol a phrydlesau
- Cyfraith gorfforedig

citylegal

Ffôn: 01633 259 844
e-bost: annest.jones@citylegal.net
(gofynnwch am gyngor yn y Gymraeg)

Eisteddfod
GENEDLAETHOL CYMRU

Annwyl gyfeillion,
gwobrau eisteddfod2010…
Ydych chi yn cofio Eisteddfod Genedlaethol 1958 yng Nglyn Ebwy? Y flwyddyn nesaf mi fydd yn dychwelyd yno ac ar hyn o bryd rydym newydd gwblhau y rhestr destunau fydd yn gweld golau dydd ar ddiwrnod y Cyhoeddi yng Nglyn Ebwy ar Sadwrn 27ain Mehefin. Fodd bynnag rydym yn edrych am gymorth pawb ar draws y wlad i gynorthwyo, os yn bosib, yr Eisteddfod hon ym Mlaenau Gwent. Dyma ofyn i unrhyw un fyddai yn dymuno rhoi gwobr ar gyfer un o'r cystadlaethau i gysylltu â mi ar frys. Mi fyddem yn hynod o ddiolchgar ac yn sicr mi fyddai y criw bychan iawn sydd yn gweithio tuag at Eisteddfod 2010 mewn talcen caled iawn, yn ategu y diolch. Gall unrhyw unigolyn, cymdeithas, côr, parti, grŵp, ysgol neu unrhyw sefydliad roi gwobr beth bynnag y diddordeb, o gerdd dant i wyddoniaeth,o lenyddiaeth i'r celfyddydau gweledol.Edrychaf ymlaen i glywed gennych yn fuan yn ein cartref parhaol newydd sef:
Swyddfa'r Eisteddfod, Uned 15,
Parc Busnes yr Wyddgrug,
Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug.
CH7 1XP (0845 122 2003)
Yn gywir,
Hywel Wyn Edwards
Trefnydd
hywel@eisteddfod.org.uk

Beth am fynd i …..ddarllen?

Fe fydd hi'n Ddiwrnod y Llyfr ar 5 Mawrth, diwrnod o ddathlu llyfrau a'u hawduron a darlunwyr. Gyda dydd Iau cyntaf bob mis Mawrth wedi ennill ei le ar y calendar celfyddydol bellach, mae'n braf gweld nifer o lyfrau newydd yn cyrraedd y siopau. I'r plentyn bach a'i riant neu warchodwr, mae yna agosatrwydd arbennig mewn sesiwn stori, profiad gwerthfawr iawn - "Dechrau Da" yn ôl cynllun cenedlaethol 'Bookstart'. Mae dau o lyfrau stori-a-llun newydd Gwasg Gomer wedi eu cymeradwyo i'r cynllun 'Dechrau Da' sef *Beth am Fynd i Hwylio?If We Had a Sailboat* a *Nawr 'te, Blant/Now then Children.* Bydd ymwelwyr iechyd yn rhoi copi o'r llyfrau dwyieithog hyn i blant wrth iddyn nhw ymweld â'r feddygfa ar gyfer archwiliad, gan roi dechrau da i bob plentyn. Ceri Wyn Jones o Aberteifi yw awdur *Nawr 'te, Blant/ Now then Children*, llyfr lliwgar iawn am anturiaethau plentyn bach yn y cylch meithrin. Ceir tipyn o chwarae gydag odl ac enwau plant yn y testun e.e 'Botyma dy grys, Rhys….Bydd yn ofalus, Alys…' Suzanne Carpenter o Gaerleon sydd wedi darlunio'r llyfr a bydd hi'n dathlu diwrnod y llyfr eleni drwy gynnal gweithdai yn Ysgol Gynradd Penboyr, Drefach Felindre.

Llyfr hwyliog iawn mewn mydr ac odl yw *Beth am Fynd i Hwylio?If We Had a Sailboat.* Gall lluniau a geiriau fynd â chi i unrhywle - mewn cwch i ben draw'r byd, mewn trên i'r jyngl, mewn roced i'r lleuad ac fe ddaw'r cyfan yn fyw i'r llygad drwy luniau gwych Adrian Reynolds o Gastell-nedd.

Dilyn stori un ebol bach wrth iddo dyfu'n geffyl hardd wneir yn y llyfr stori-a-llun *Ceffyl* a addaswyd i'r Gymraeg gan Siân Lewis o Lanilar. Mae'r lluniau trawiadol yn ein tywys drwy'r llyfr o'r adeg y caiff yr ebol ei eni, dysgu sefyll ar ei goesau main, curo'i garnau ac yn nes ymlaen rhuthro o gwmpas y cae. Dyma lyfr hyfryd am un o'n creaduriaid anwylaf.

Dathlwch Ddiwrnod y Llyfr gyda llyfr newydd!

Manylion Cyhoeddi
Beth am fynd i Hwylio?
Jonathan Emmett ac Adrain Reynolds addas. Sioned Lleinau
9781848510234 £4.99
Nawr 'te, Blant
Ceri Wyn Jones a Suzanne Carpenter
9781848510241 £5.99
Ceffyl
Malachy Doyle ac Angelo Rinaldi addas. Siân Lewis
9781843239437 £5.99

Map y bröydd yn ennill gwobr fawr

Enillodd map unigryw o fröydd Cymru un o wobrau pwysig y Sefydliad Tirweddau. Y Cyngor Cefn Gwlad fu'n gyfrifol am ddatblygu'r map sy'n dangos y berthynas rhwng pobl a lle. Nid map sy'n dangos daeareg, tirwedd a byd natur yn unig yw hwn a dyna dynnodd sylw'r beirniaid.

Tynnwyd sylw at 49 o froydd o amrywiol ardaloedd, o Fryniau Clwyd i'r Preseli a chymoedd diwydiannol y De.

Mynegwyd barn a theimladau pobl at eu cynefinoedd ynghyd â ffeithiau amgylcheddol. Cafodd pob math o ffynonellau eu defnyddio a gall cynllunwyr y dyfodol elwa o'r wybodaeth ar y map hwn.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Da iawn chi …

… blant a phobl ifanc Creigiau sy'n aelodau o Weithdai Bro Taf ar eich perfformiadau graenus yn y sioe 'Y dyn na'th ddwyn y Dolig'. Sioe fythol-wyrdd Hywel Gwynfryn a Caryl Parry Jones a berfformiwyd ddwy waith yn theatr y Stiwt, Cwmaman – jest cyn yr eira mawr! Edrychwn ymlaen at y cynhyrchiad nesa – ond cyn hynny pob lwc i'r dawnswyr fydd yn cystadlu allan ym Mallorca yn ystod gwyliau'r Pasg eleni. Diolch i'r criw ymroddgar sy'n rhoi o'u hamser prin i hyfforddi'r bobl ifanc.

Cân i Gymru

Llongyfarchiadau mawr Chris Lewis, Y Teras. Mae ei gân, Adenydd, wedi cyrraedd rownd yr wyth ola yng nghystadleuaeth arobrin S4C – 'Cân i Gymru' eleni a hynny ar ei gynnig cyntaf. Elin Fflur sy'n canu'r gân – gwrandewch allan amdani – pleidleisiwch drosti! Gwyliwch ei thynged! Pob lwc Chris! Falle y cei di ysgrifennu ambell i gân i Catsgam yn y dyfodol! Daw Chris yn wreiddiol o Aberteifi, ac mae'n gweithio fel golygydd. Ef oedd gitarydd y band Jess, a fu'n llwyddiannus iawn yn y 90au.

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

Penwythnos Teulu i Langrannog Ebrill 3-5, 2009
Penwythnos penigamp i'r teulu cyfan. Cyfle i brofi llu o weithgareddau - sgïo, merlota, nofio, go-karts, beiciau modur, cwrs rhaffau, trampolîn, trip i'r traeth, taith gerdded, disco a llawer mwy…. Addas i rieni Cymraeg a Di-Gymraeg. Y pris yn cynnwys yr holl weithgareddau, llety, prydau bwyd a meithrinfa.

Nid yw'r Fenter yn gyfrifol am gludo teuluoedd i Langrannog.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Angharad –
angharad@mentercaerdydd.org

Cwis Tafarn Cymraeg
Fe fydd cwis nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Mawrth 29 yn y Mochyn Du. 8pm. Croeso i bawb

Cynlluniau Gofal y Pasg
Fe fydd tri Cynllun Gofal yn rhedeg yn ystod gwyliau'r Pasg – Ysgol Treganna, Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol y Berllan Deg. Yn ystod y gwyliau, fe fydd llu o weithgareddau difyr wedi'u trefnu. Rhaid cofrestru o flaen llaw. Am wybodaeth cysylltwch â Gwyneth – gwyneth@mentercaerdydd.org

Gweithdai i blant yn ystod gwyliau'r Pasg
Mae'r Fenter wedi derbyn nawdd gan gynllun 'Arian i Bawb' y Loteri i gynnal gweithdai arbenigol i blant blynyddoedd 4 – 8 yn ystod gwyliau'r Pasg eleni. Fe fyddwn yn hyrwyddo'r gweithgareddau ar wefan y Fenter a drwy'r ysgolion yn ystod mis Mawrth. Dyma restr o'r gweithgareddau fydd yn cael eu cynnig.
Gweithdy Coginio i blant blwyddyn 6, 7 ac 8
Gweithdy Animeiddio i blant blwyddyn 4, 5, 6 a 7
Gweithy Drama i blant blwyddyn 4, 5, 6 a 7
Gweithdy Cerddoriaeth i blant blwyddyn 4, 5, 6 ac Uwchradd
Fe fydd y gweithdai i gyd yn digwydd mewn lleoliadau amrywiol ar hyd a lled y ddinas.

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag angharad@mentercaerdydd.org

Elusennau Cymru yn lansio apêl ar y cyd i leddfu'r sefyllfa ddyngarol yn Gaza

Mae rhai o brif elusennau Cymru yn apelio ar y cyhoedd i roi cymorth i'r rhai hynny sydd wedi eu heffeithio gan y sefyllfa yn Gaza.

Wrth lansio Apêl Argyfwng Gaza, dywedodd Richard Laydon, Cadeirydd DEC Cymru fod y dinistr yn nhiriogaeth Gaza mor enfawr fel bod asiantaethau yng Nghymru wedi eu cymell i weithredu.

Mae dros 1,300 o Balestiniaid wedi eu lladd yn y gwrthryfel, a miloedd wedi eu hanafu, gan beri bod yr ysbytai lleol yn orlawn. Mae'r sefyllfa wedi gadael pobl yn ddigartref a nifer o blant heb fodd i gael addysg; mae pŵer, bwyd a dŵr glân yn annigonol ar gyfer anghenion y boblogaeth.

Meddai Richard Laydon: "Mae gan asiantaethau y DEC fandad dyngarol. Nid ydym yn bwriadau ymgeisio i ail-adeiladu Gaza - nid dyna yw ein rôl. Ond gyda chefnogaeth pobl Cymru gallwn gwrdd â'r anghenion yn y tymor-byr. Mae asiantaethau eisoes yn cyflenwi bwyd, meddyginiaethau a blancedi yn ogystal â dŵr glân.

"Ond heb fwy o arian, mae cyfyngiadau i'r hyn allwn ni ei wneud. Ar gyfer y rheiny sy'n dioddef ac yn brwydro i oroesi, mae derbyn cymorth dyngarol ar frys yn gam allweddol tuag at wella ac ail-afael yn eu bywydau."

Pwysleisiodd Richard Laydon fod asiantaethau dyngarol DEC yn anllywodraethol. "Rydym yn gweithio ar sail yr angen dyngarol ac mae gwir angen cymorth yn Gaza heddiw. Mae darganfod yr atebion gwleidyddol yn rhywbeth i eraill eu datrys, ond yr hyn sydd yn ofid calon i ni yw bod cymaint o bobl ddiniwed wedi eu heffeithio gan y sefyllfa - a nhw yw'r rhai yr ydym am eu helpu."

Angen Gwirfoddolwyr

Rydym yn elusen sy'n gweithio gyda phobl sydd a nam gweledol a chlywedol ac yn sefydlu grwpiau cymorth yng Nghymru. Rydym wedi sefydlu un yng Nghaerffili ac yn y Rhondda a Chaerdydd. Mi fydd gwirfoddolwyr yn helpu'r unigolion i fynychu'r grŵp ac yn ymwneud á gweithgareddau gan gynnwys efallai ymweld â chadw cwmni i unigolion yn yr ardal.

Mae Deafblind UK yn elusen cenedlaethol sy'n cynnig gwasanaethau arbenigol a chefnogaeth i bobl ddall-byddar a'r rhai sy'n colli eu clyw a'u golwg dros gyfnod o amser. Ein nod yw galluogi pobl sy'n byw gyda'r anabledd unigryw hwn i gynnal eu hannibyndod, ansawdd bywyd a lleihau yr unigedd mae bod yn ddall-byddar yn ei greu.

Os allwch roi cymorth mewn unrhyw fodd, a wnewch chi gysylltu â Nerys Probert, Cydlynydd Grŵp De Cymru, Deafblind UK.
02920 601472
007827309770

CYMORTH.COM

Llinellau ffôn Cymraeg

Mae llawer o wasanaethau yn darparu llinellau ffôn Cymraeg. Ewch i

www.cymorth.com

i gael y rhifau ffôn.

Arweinydd Newydd i Gôr Merched y Garth

Erbyn hyn bydd y rhan fwyaf ohonoch wedi clywed bod gan y Gôr Merched y Garth arweinydd newydd ifanc a hawddgar, sef **Gavin Ashcroft**. Wedi blynyddoedd o lafur cariad a llwyddiant mawr a llawer iawn o hwyl a sbri, gan gynnwys ymweliadau â Pharis a Phatagonia, mynegodd **Llinos Swain** ei hawydd i drosglwyddo'r awenau i rywun arall, gan addo y byddai ar gael o hyd fel dirprwy arweinydd. Mae'r côr yn hynod ddiolchgar i Llinos am ei holl waith dros y blynyddoedd diwethaf, a cheisiwyd dathlu ei chyfraniad mewn cyfarfod anffurfiol yn y Carpenters yn yr Efail Isaf nos Lun y 9fed o Chwefror. Roedd bwffe hyfryd wedi ei baratoi ac Eifiona'n barod efo'i hanerchiad, ond yn anffodus, roedd Llinos yn sâl! O wel, mae'n siŵr y bydd cyfle arall cyn hir.

Mae Gavin yn adnabyddus trwy Gymru am ei lwyddiannau ar lwyfan y Genedlaethol a'r Ŵyl Gerdd Dant, ac mae'r côr yn edrych ymlaen at gyfnod pellach o lwyddiant o dan ei arweiniad. Bydd cyfle i glywed y côr o dan arweiniad Gavin yng Nghlwb y Bont ar 13 Mawrth mewn noson o Gwrw a Chân.

Arweinydd newydd - aelodau newydd

Eisoes mae rhai aelodau newydd – ac ifanc iawn! – wedi ymuno â'r côr. Mae Gavin yn awyddus iawn i gael rhagor o aelodau ifanc. Os oes gennych awydd ymuno, dewch draw i festri'r Tabernacl yn yr Efail Isaf ar nos Lun erbyn 7.45 p.m. Mae croeso ichi ffonio ymlaen llaw os yw'n well gennych – Eleri yw'r Ysgrifenyddes a'i rhif yw 01443 208211. Neu ebostiwch eleriproberts@hotmail.com

Cynlluniau

Mae gan y côr bellach swyddog adloniant – ifanc a brwd - yn aelod o'r pwyllgor! Ac mae cynlluniau i wneud pob math o bethau cymdeithasol, fel cwis, helfa drysor a chertio, er mwyn i'r aelodau hen a newydd ddod i adnabod ei gilydd. Rhyw fath o fondio cerdd-dantaidd.

Yr Eisteddfod

Un cynllun pendant sydd ar y gweill yw cystadlu yn yr Eisteddfod yn y Bala ar gystadleuaeth y corau cerdd dant, ac efallai ar y corau gwerin hefyd. Mae angen côr mawr i wneud hyn yn llwyddiannus, felly os ydych yn ffansïo trip i'r Bala, dyma'r cyfle perffaith. Mae'r Eisteddfod yn cael ei chynnal yn ystod wythnos gyntaf mis Awst – fel arfer mae cystadleuaeth y corau cerdd dant tua diwedd yr wythnos.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Eurgain Haf , Y Comin, Pontypridd, gafodd lawdriniaeth ar ei choes yn dilyn damwain wrth farchogaeth ceffyl.

Wedi cyfnod yn gweithio fel Swyddog y Wasg i S4C mae Eurgain yn gweithio fel Swyddog y Cyfryngau i elusen Achub y Plant ac yn awdures yn ei hamser sbâr.

Mae eisoes wedi cyhoeddi dwy nofel i blant gyda Gwasg y Dref Wen 'Fferm Ffion' yn 2005 a 'Stablau Seren' yn 2006. Cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol a moesol plant rhwng 7 ac 11 oed yw gobaith ei nofel newydd 'Siencyn a Dan Draed' a gyhoeddwyd yn 2008.

Mae Eurgain yn enedigol o Benisarwaun ac mae'n gyn-enillydd Coron Eisteddfod yr Urdd (1994) ac Eisteddfod Môn (2002). Enillodd wobr Cymdeithas Celfyddydau Gogledd Cymru am stori fer, a bu'n llwyddiannus yng nghystadleuaeth stori fer BBC radio Cymru yn 2004 a chyhoeddwyd y stori yn rhan o'r gyfrol Yn Nes at Baradwys (Gol. Angharad Dafis). Perfformiwyd ei drama fer 'Cadw Oed' yn rhan o gynhyrchiad teithiol Sgript Cymru, Drws Arall i'r Coed yn 2005.

Dinamo i Drefforest

Yng nghanol y newyddion drwg am ddiweithdra braf yw clywed am ddatblygiad newydd yn Nhrefforest. Mae Cwmni Cynhyrchiadau Dinamo o Gaerdydd am sefydlu stiwdio newydd er mwyn cynhyrchu rhagor o raglenni teledu, yn arbennig cartwnau i blant.

Cwmni cynhyrchu animeiddio ifanc ac arloesgar yw Dinamo a sefydlwyd ym 2004 gan gyfarwyddwyr animeiddio nodedig Aron Rhys Evans ac Owen Stickler, cyn-ddisgyblion o Ysgol Gyfun Glantaf, Caerdydd. Mae'r cwmni'n cynhyrchu animeiddio digidol 2D a 3D o ansawdd uchel ar gyfer ffilm a theledu gan ddefnyddio amrywiaeth o gymwysiadau meddalwedd. Mae'r tïm o animeiddwyr, dylunwyr a chynllunwyr proffesiynol weithio mewn amrywiaeth o arddulliau sy'n gweddu'r prosiect sydd ar y gweill.

Mae Dinamo wedi gweithio ar raglenni megis CNEX, O Na! Y Morgans, Cwm Teg a chyfresi i Cyw a phlant o bob oedran a theuluoedd.

Yn ddiweddar cwblhawyd gwaith i gyfres newydd CBeebies 'Grandpa in my Pocket' a disgwylir y bydd hyd at 80 o bobl yn cael eu cyflogi ar gyfer gwaith newydd i gwmniau Disney, Nickleodeon a CBeebies.

Mae Dinamo yn cydweithio gyda nifer o gwmniau yng Nghymru ac erbyn hyn mae rhai o'r adnoddau gorau yn y byd yn gweithio yn yr ardal.

Yn ogystal â Dinamo mae'r BBC yn cyflogi hyd at 400 o bobl yn Nhrefforest yn datblygu a chynhyrchu cyfresi megis Dr Who a Torchwood a disgwylir y bydd rhagor o gyfresi yn dod o'r stiwdio yn Nhrefforest. Mae gan y BBC gynlluniau i greu canolfan cynhyrchiadau yn canolbwyntio ar faes drama, cerddoriaeth a rhaglenni ffeithiol ac fel rhan o'r cynlluniau bydd Crimewatch ac efallai Casualty yn symud i Gymru.

Hedfanwch gyda'r hebog

Ydy'ch rhieni chi'n normal?
Beth petaech chi'n perthyn i rywun enwog?
Fyddech chi'n hoffi cael estrys yn anifail anwes?
Beth sy'n achosi'r naws anghysurus yn y tŷ dienw?
Beth petai'r byd i gyd yn cael ei droi ben i waered mewn un diwrnod?
Beth petaech chi'n dod ar draws cynllwyn dieflig?

Dyma rai o'r cwestiynau sy'n cael eu holi mewn cyfres o lyfrau at ddant plant 9-12 oed a gyhoeddir gan Wasg Gomer. Newydd ymddangos mae deg llyfr cyntaf *Cyfres yr Hebog*, sy'n cynnig amrywiaeth o ddeunydd mewn iaith sy'n addas i blant gydag oed darllen is na hynny. Gyda phenodau byrion, lluniau du a gwyn a stori sy'n cydio o'r cychwyn, fe fydd hyd yn oed y darllenwyr mwyaf anfoddog yn siwr o hedfan gyda'r hebog drwy'r llyfrau!

Meleri Wyn James, Gwen Redvers Jones, Eiry Miles, Llinos Dafydd ac Elin Meek yw addaswyr y llyfrau i'r Gymraeg ac o fewn y gyfres ceir llyfrau hanesyddol, doniol, dirgelwch, storïau am anifeiliaid, chwaraeon a'r berthynas rhwng pobl â''i gilydd.

Gyda theitlau fel *Byw gyda Fampirod, Dilys Ddwl, Wmba-bwmba o'r Gofod, Gwarchae, Brad, Taro'r Targed, Ysgol Cŵn Bach, Codi Calon Tad-cu, Cath Modryb Bela*, a *Y Tŷ Dienw*, fe fydd yr arlwy hwn yn cynnig ystod eang o brofiadau darllen i fechgyn a merched.

Manylion Cyhoeddi
Cyfres yr Hebog
Gwasg Gomer
£4.99 yr un
Mae'r llyfrau ar werth am £4.99 yr un ac mae pecyn o'r deg teitl ar gael am £40.

Cofiwch am Ddiwrnod y Llyfr ar ddydd Iau, Mawrth 5 a'r ffordd orau i chi ddathlu'r diwrnod yw rhoi llyfr yn anrheg, wrth gwrs!



Fel arfer, bwli'r pentref yw problem fwyaf Pwtyn. Ond un diwrnod, caiff ei gipio gan long ofod!

Mae antur fawr Pwtyn a Del yn dechrau ar long ofod, a chyn hir mae'r ddau'n glanio ar blât brecwast broga mawr o'r gofod! A fydd Pwtyn a Del yn cyrraedd 'nôl i'r Ddaear yn saff – neu a fyddan nhw'n cael eu bwyta?

O fewn y gyfres ceir llyfrau hanesyddol, doniol, dirgelwch, storïau am anifeiliaid, chwaraeon a'r berthynas rhwng pobl â''i gilydd.

Fe fydd yr arlwy hwn yn cynnig ystod eang o brofiadau darllen i fechgyn a merched.

Cornel y Plant

Brwshis paent

Dw i wrthi'n brysur yn paentio. Mae gen i 4 brwsh i bob lliw. Lliwiwch chi nhw. Sawl brwsh sydd yna i gyd a sawl brwsh o bob lliw?

Croesair

Ar draws:
3. Rhywbeth melyn, melys
5. Bwyd arbennig gyda llawer o lysiau
6. Mae ganddo blisgyn
7. Mae un goch ar faner Cymru
9. Gair arall am faint?

I lawr:
1. Rhywbeth gwyn i'w roi mewn cacen
2. Daw ar ôl dau
4. Mae'n wyn ac yn felys
8. Ar ôl y cyntaf daw yr ---

Lliwiwch y llun o gefnogwyr Cymru



CROESAIR

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau



Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 20 Mawrth 2009

Ar Draws

1. Gerwin (7)
4. Gwraig fud (5)
7. Dodi'n amhriodol (7)
8. Offeryn cerdd (5)
9. Ffrwythau bach coch (6)
11. Twyllodrus (8)
15. Yn gosod safon (8)
17. Torri cysylltiad (6)
18. Meddwdod (5)
21. Aderyn (7)
22. Gwrthod mynd (5)
23. Serchog (7)

I Lawr

1. Cynfas (8)
2. Di-baid (6)
3. Un sy'n rhoi gwybodaeth mewn llys (4)
4. Symud i fyw i wlad arall (4)
5. Sicrhau, amddiffyn (7)
6. Hud (4)
10. Llam (4)
12. Corlan defaid (4)
13. Gogoneddus (8)
14. Anifail bach pigog (7)
16. Neidio'n ôl (6)
18. Aderyn mawr du (4)
19. Cysylltu (4)
20. Twyll (4)

Atebion Chwefror

A		P		C		D		P		C		U
D	R	A	M	A		O	E	R	DD	R	W	S
E		N		C		F		I		Y		W
N	I	D	D	A	RH	Y	O	DD	I	M		Y
W		Y		M		DD				U		DD
	B		P	W	N		P	E	LL		C	
C	R	A	W	C				I	O	L	Y	N
	I		LL	I	D		Y	L	I		LL	
C		Y				C		I		A		A
L		M	A	E	E	L	I	A	T	B	O	B
W		DD		B		O		D		L		E
Y	M	A	N	O	D	I		A	M	E	D	R
F		L		L		G		U		DD		TH

CYLCH MEITHRIN EFAIL ISAF
Bob bore
Mawrth, Mercher, a Gwener
9.30 - 1.00
Bore lau 9.30 - 12.30pm
TI A FI EFAIL ISAF
Dydd lau 12.45pm - 3.00pm
Yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf
Manylion: 01443 208806

TI A FI BEDDAU
Bob bore Mercher 10.00 - 11.30a.m.
yn Festri Capel Castellau, Beddau

TI A FI TONTEG
Bob dydd Mawrth 10 - 11.30
yn Festri Capel Salem, Tonteg

TI A FI CREIGIAU
Prynhawn Gwener 1.15 - 2.45
Neuadd y Sgowtiaid
Y Terrace, Creigiau
Manylion: 07866 087042

TI A FI PENTRE'R EGLWYS
1.15-2.45p.m. Neuadd Y Plwyf
Bob dydd lau

CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD
Bore Llun, Mercher a lau
9.30-11.30
TI A FI CILFYNYDD
Dydd Gwener 9.30-11.30
Neuadd Y Gymuned,
Stryd Howell,Cilfynydd.
Manylion: Ann 07811 791597

CYLCH MEITHRIN BRYNNA
Dydd Llun - Gwener 9.30 - 12.30
01443 229723

CYLCH MEITHRIN PONTYCLUN
Dydd Llun - Gwener 9 - 12
07912 101506
Ti a Fi Pontyclun
Prynhawn Llun 1.15 - 2.45
01443 225644

CYLCH MEITHRIN THOMASTOWN
Dydd Llun - lau 9.15 - 11.45
Ti a Fi bore Gwener 9.30 - 11.30
07757 633249

'mae gen ti ddewis...'

Mae gwasanaethau Cymraeg ar gael dros y ffôn, ar-lein, ar bapur a wyneb yn wyneb.

Wrth ffonio, ysgrifennu at sefydliad neu'n ymweld â sefydliad, edrycha am y dewis iaith.

Dewisa'r Gymraeg pan fydd ar gael

Rho wybod i dy deulu a'th ffrindiau fod ganddyn nhw ddewis hefyd.

www.dewis.org.uk

Addysg Gydol Oes

A hoffech chi ddatblygu eich sgiliau yn y Gymraeg eleni?

Mae Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes yn darparu cyrsiau i Gymry Cymraeg a dysgwyr rhugl yn 2009:

Sgiliau Cyfieithu: Llafar
Cyfle i ddysgu hanfodion y grefft o gyfieithu ar y pryd.
10 cyfarfod wythnosol
Nos Fawrth o 7.00 pm tan 9.00 pm
Yn dechrau 21 Ebrill 2009

Gweithdy Cyfieithu
Gweithdy hanner diwrnod i drafod gofynion arholiad aelodaeth Sylfaenol Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru. 10.00 am tan 1.00 pm
Ddydd Sadwrn 14 Mawrth 2009

Am ragor o fanylion, cysylltwch â Canolfan Caerdydd ar gyfer Addysg Gydol Oes, Prifysgol Caerdydd, Ffordd Senghennydd, Caerdydd CF24 4AG. 029 20870000
www.caerdydd.ac.uk/dysgu
DYSGU@caerdydd.ac.uk

CD Newydd

Bydd HuwMM yn lansio albym/CD unigol mewn gig yng Nghlwb Ifor Bach, Caerdydd nos Wener, Mawrth 6ed. Enw'r CD ydy 'Os Mewn Sŵn', a bydd dau artist arall yn perfformio ar y noson - Colorama a Plyci (ma' nhw'n dda iawn iawn). Bydd y gig yn dechrau am tua 8pm a gorffen am 11pm - pris mynediad yw £5.

Gwefannau Cymraeg

www.cymorth.com
www.gwefan.org
www.tafelai.com
www.cwlwm.com
www.tabernacl.com
www.menteriaith.org
www.gwe-bethlehem.org
www.urdd.org
www.mentercaerdydd.org
www.bwrdd-yr-iaith.org

Ysgol Gymraeg Castellau

Wythnos Ddarllen
Cynhaliwyd wythnos ddarllen yn yr ysgol gyda'r bwriad o hybu sgiliau darllen y bechgyn yn benodol. Gwahoddwyd nifer o rieni i mewn i ddarllen storïau a sôn am eu hoff lyfrau. Yn ogystal cafwyd sesiynau difyr iawn gyda'r bardd enwog, Cyril Jones a chapten tîm rygbi 7 bob ochr Cymru, Jonathan Edwards. Cyn ddisgybl Ysgol Castellau yw Jonathan a'i hoff lyfr pan oedd yn yr ysgol oedd Zac yn y Pac sy'n parhau i fod yn ffefryn mawr gyda nifer o'n bechgyn.

Sioe Bypedau
Croesawyd Sioe Bypedau Jwngl, Jingl, Jangl i'r ysgol i berfformio i blant y Derbyn hyd at Flwyddyn 2. Thema'r sioe oedd Affrica a bu'r plant wrth eu bodd yn perfformio gyda'r offerynnau Affricanaidd.

Ensemble Telynau
Diolch yn fawr i Mrs Bethan Roberts a Mrs Lowri Phillips am ein diddanu wrth berfformio ystod o ganeuon hwylus ac adnabyddus i'r plant. Gobeithio y bydd nifer o'r plant wedi'u hysbrydoli i ddechrau chwarae yn y dyfodol agos.

Ymweliad Jane Davidson
Braf oedd croesawu Jane Davidson Y Gweinidog dros Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i'r ysgol. Bu Ms Davidson yn gyn Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a hi'n bennaf oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Roedd wrth ei bodd yn sgwrsio â'r plant ac yn trafod eu profiadau di-ri. (Llun ar dudalen 13)

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Croeso!
Braf dweud bod yr 11 o fechgyn cyn-Feithrin a ddaeth atom ym mis Ionawr wedi ymgartrefu erbyn hyn! Maent gyda ni bob bore ac yn mwynhau bob eiliad.

Noson Agored
Daeth dros 100 o ddarpar rieni ar ymweliad â'r ysgol nos Fercher 21 Ionawr. Cafwyd cyfle i fwynhau paned, i fynd ar daith o gwmpas yr ysgol ac i wrando ar gyflwyniadau gan rai o'r staff. Diolch yn fawr i'r staff am eu cyflwyniadau a'u cymorth ar y noson lwyddiannus hon.

Rygbi
Hanes ein tîm yn ysgol Dolau oedd colli un, enill un. Llongyfarchiadau a da iawn chi! (Cewch luniau yn ystod y rhifyn nesaf).

Cyngerdd
Cynhaliwyd cyngerdd 'Symffoni Cerdd a Chân' yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant nos Sadwrn 24/01/09 gyda chorau meibion yr ardal a bandiau pres a chwyth. Braf iawn gweld corau'r ysgol yn cymryd rhan a chanu mor dda. Da iawn chi a diolch i'r athrawon am eu holl waith called.

Hwyl Fawr!
Bydd Maia Wilcox (Blwyddyn 2) yn symud i Loegr fyw yn ystod hanner tymor. Pob lwc Maia yn dy ysgol newydd.

Sialens Mr Men
Diwrnod prysur iawn oedd 12/02/09 gyda phlant yr ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol er mwyn codi arian tuag at elusen Mr Men (leukaemia). Diolch yn fawr i rieni a ffrindiau'r ysgol am eu cyfraniadau hael.

Disgyblion Dosbarth Meithrin Ysgol Castellau gyda'u hathrawes Helen Jones a Jane Davidson Y Gweinidog dros Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Gwyn Griffiths yn arwain taith gerdded Dysgwyr Morgannwg o gwmpas safleoedd hanesyddol Pontypridd **(Gweler Tudalen 5)**

Disgyblion Ysgol Gymraeg Llantrisant yn canu yn 'Symffoni Cerdd a Chân' yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant

Priodas Carys Lamb a Michael Spicer ym mis Ionawr. Y morynion oedd Haf Jones a Catrin Rees

Roedd rhai yn croesawu'r eira fu'n amharu ar drafnidiaeth yn ystod wythnosau cyntaf mis Chwefror



Awdures yn cyrraedd y rhestr fer

Mae'r awdures Catrin Dafydd o Waelod y Garth wrth ei bodd gan fod ei nofel *Random Deaths and Custard,* a gyhoeddir gan wasg Gomer, wedi cyrraedd rhestr fer mewn gwobr genedlaethol.

Nôl ym mis Hydref 2008 fe ddaeth yn un o'r hanner cant o deitlau yn ymgyrch 'Spread the Word: Books to Talk About 2009' ac ar 30 Ionawr eleni datgelwyd ei fod yn un o'r deg dethol i gyrraedd y rhestr fer. Yr ysbrydoliaeth tu ôl i'r ymgyrch, un o brojectau Diwrnod y Llyfr trwy Brydain, yw mai dim ond canran fechan iawn o'r miloedd o lyfrau a gyhoeddir bob blwyddyn sy'n llwyddo i adael eu marc ar y byd mawr. Roedd tîm Diwrnod y Llyfr yn teimlo y gallai perlau o nofelau a llyfrau ffeithiol ddianc trwy rwyd ymwybyddiaeth y cyhoedd felly gofynnwyd i gyhoeddwyr bach a mawr ledled Prydain awgrymu llyfrau ddylai gael sylw ehangach nag a gaent fel arfer – yn enwedig y llyfrau hynny fyddai'n ennyn trafodaeth: llyfrau sy'n gwneud mwy na rhoi adloniant, ond sydd hefyd yn cynnig rhywbeth i gnoi cil arno. *Random Deaths and Custard* oedd yr unig gyfrol gan gyhoeddwr o Gymru i gyrraedd y rhestr hir, ac mae'n dipyn o gamp a chlod i Catrin a'r wasg bod y nofel wedi llwyddo i oroesi nes cyrraedd y rhestr fer.

Fe fyddai'n wych o beth i weld y wobr yn dychwelyd i Gaerfyrddin gan roi Cymru ar y map unwaith eto ym myd y celfyddydau. Cyhoeddir yr enillydd ar Ddiwrnod y Llyfr, Mawrth 5 yn Waterstones, Piccadilly, Llundain.

Does dim amheuaeth bod y nofel, cyfrol Saesneg gyntaf y nofelydd Cymraeg a fagwyd yng Ngwaelod y Garth ger Pontypridd, yn rhoi adloniant. Mae'r stori'n llawn o gymeriadau lliwgar a bisâr, ac o ddigwyddiadau rhyfedd ac anghredadwy – gan gynnwys y marwolaethau hap, y cyd-ddigwyddiadau annisgwyl a'r camddealltwriaethau trasig-gomic. Sam yw'r prif gymeriad, merch ddeunaw oed o'r Rhondda sydd wedi llwyddo i gael swydd yn y ffatri gwstard leol ar ôl gorffen yn yr ysgol gyfun Gymraeg leol. Ers gadael yr ysgol, prin yw'r cyfle gaiff Sam i ymarfer ei Chymraeg, heblaw am wylio Pobol y Cwm gyda'i mam-gu a cheisio sgwrsio gydag un o'i hen athrawon yn yr archfarchnad. Ond rhywust, daw rheolwyr y ffatri i ddeall bod Sam yn ddwyieithog, ac ymhen chwinciad, hi yw cyfieithydd swyddogol Custards ac mae pethau'n dechrau mynd o ddrwg i waeth i Sam.

Dyma nofel sy'n siwr o wneud i chi chwerthin ac wedi i chi ei darllen, cofiwch bleidleisio amdani!

Random Deaths and Custard
Catrin Dafydd £7.99

Cylch Meithrin Creigiau

Mae cwis Gŵyl Dewi y Cylch Meithrin eleni nos Wener Mawrth y 6ed. Croeso cynnes i bawb a dylai fod yn noson llawn hwyl gyda Rhian Horsey fel cwisfeistres.

Côr y Bont

7.30 Bob nos Lun
yng Nghlwb y Bont,
Pontypridd
Noson croesawu aelodau newydd
Dydd Llun cyntaf bob mis
Ffoniwch Del Caffrey
01443 493184

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2009

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 5 Mawrth, ac y mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un.** Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!

Ar Draws

1. Hunangofiant Nigel Owens (6, 5)
6. Hunangofiant gwleidydd o Geredigion, *Cynog –_ _ _ y Pregethwr* (3)
8. Casgliad o gerddi diweddaraf y Prifardd Myrddin ap Dafydd, _ _ _ _ *Newydd* (4)
9. Nofel anarferol a grymus gan Owen Martell, *Dyn yr* _ _ _ _ _ _ (6)
11. Stori fywiog a gwreiddiol i blant 5–7 oed yn adrodd hanes adnewyddu hen feic modur, _ _ _ _ _ _ _ _ *Twm Twrch* (8)
13. Nofel gan Mihangel Morgan am ffoadur o wlad Lacsaria (5)
15. Cyfrol yn cynnwys nifer penodol o gerddi a olygwyd gan Dafydd Islwyn (4, 1, 8)
18. Merch o'r Cwm (5, 8)
22. Bardd *Môr Goleuni/Tir Tywyll* (5)
24. Cyfrol gan Rhiannon Ifans, *Awstralia, Gwlad yr Aur – Teithio i Awstralia drwy Lygad y* _ _ _ _ _ _ _ _ *Cymraeg* (8)
27. (gweler 24. i lawr)
29. *Llestri* _ _ _ _ *a Gobaith: Cymry a'r Cenhadon yn India*, cyfrol a olygwyd gan D. Ben Rees (4)
31. *Rhag* _ _ _ *Ysbrydion – Chwilio am y Gwir am Straeon Ysbryd* gan J. Towyn Jones (3)
32. Nofel gan Rhiannon Wyn yng Nghyfres yr Onnen, ar gyfer plant 9–13 oed (4, 7)

I Lawr

1. (gweler 21.)
2. Hunangofiant R. S. Thomas yng Nghyfres y Cewri (3)
3. (gweler 5.)
4. Enw cyntaf awdur *Rara Avis*, nofel wedi ei lleoli yn un o bentrefi Cwm Rhondda yn y 1950au (5)
5. a 3. Awdur *Telyn Egryn* yng Nghyfres Clasuron Honno (4, 5)
6. Nofel ramantus gan Selyf Roberts, *Cyfrinach* _ _ _ (3)
7. Cyfrol o atgofion Jac Davies o Gwm Gwendraeth (3, 1, 3)
10. Cyfenw awdur gwreiddiol *Gwyliau Santa*, addasiad Cymraeg o *Santa's Suitcase* ar gyfer plant 2–4 oed (3)
12. *Dim Angen Creu Teledu* _ _ _ , cyfrol o gerddi gan Aled Lewis Evans (3)
13. *Mae Mali Eisiau* _ _ _ , llyfr ar gyfer plant bach am Mali'r ddafad, gan Joseph Theobald (3)
14. _ _ _ _ *a Thinsel – Blodeugerdd Barddas o Gerddi Nadolig* a olygwyd gan Elwyn Edwards (4)
15. _ _ _ *fy Meiau*, dyddiadur a gyhoeddwyd gyntaf ym 1957, yn adrodd profiadau ysbrydol y diweddar Brifathro Pennar Davies (3)
16. Enw cyntaf awdur *Cario'r Ddraig – Stori El Bandito* (4)
17. *Yr _ _ _ yng Ngruddiau'r Rhosyn*, nofel gyffrous gan Gwyn Llewelyn (3)
18. Nofel gref am berthynas deuluol gan Emily Huws (7)



Cofiwch mai un llythyren yw DD, NG, RH

19. Un o gyfrolau Hywel Teifi Edwards, *Arwr Glew Erwau'r* _ _ _ (3)
20. Mae bachgen o'r fath yn nofel Bob Eynon, *Y Corff Anhysbys* (3)
21. ac 1. Enillydd y Fedal Ryddiaith 2008 (7, 7)
23. *Fel y* _ _ _ , nofel ddirectif gan Elgan Philip Davies (3)
24. a 27. ar draws _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ *a Straeon a Cherddi Eraill*, cyfrol gan fardd Plant Cymru 2007–08 (5, 6)
25. Cyhoeddodd y bardd hwn lyfr glas yn ddiweddar (5)
26. _ _ _ _ *gyda Twts*, un mewn cyfres o bedwar llyfr bwrdd dwyieithog i blant bach gan Chris Glynn (4)
28. Enw cyntaf golygydd *Gwaith Gruffudd ap Maredudd III* yng Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr (3)
30. Nofel rymus wedi'i lleoli ym Mhen Llŷn gan Alun Jones, *Ac Yna Clywodd* _ _ _ *y Môr* (3)

Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion

gwales.com
llyfrau ar-lein

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

DIWRNOD Y LLYFR 05.03.2009

ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO

Anfonwch y croesair at: **Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2009. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.**

Trip Sgïo Ysgol Gynradd Dolau i La Polsa, Yr Eidal 2009

Ar Ionawr 31ain aeth deunaw o ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 Ysgol Gynradd Dolau ar drip sgïo am wythnos i La Polsa yn yr Eidal gyda thri o'u hathrawon. Gadawon nhw'r ysgol yn ystod oriau mân y bore a chychwynnon nhw ar eu taith i faes awyr Bryste.

Roedden nhw i gyd yn gyffrous iawn i fynd ar yr awyren i ddechrau eu gwyliau bythgofiadwy! Pan gyrhaeddon nhw faes awyr Milan cwrddon nhw a'u 'rep' am yr wythnos, Fabio. Cychwynnon nhw ar y daith bws i La Polsa a manteisiodd rhai o'r athrawon ar y cyfle i gysgu!

Wrth ddringo'r mynyddoedd troellog i'r copa, gwelson nhw olygfeydd anghredadwy. Roedd yr eira yn berffaith a'r mynyddoedd yn brydferth. Dywedodd Fabio wrthyn nhw bod eira trwm ar y ffordd dros nos! Yr hyn nad oedden nhw'n ei disgwyl oedd bod eu ffrindiau yn ôl yng Nghymru yn disgwyl tywydd tebyg !!

Cyrhaeddon nhw eu cartref am yr wythnos o gwmpas 6 o'r gloch y nos, sef Gwesty'r Dolomiti. Codon nhw'n gynnar y bore canlynol yn barod ar gyfer eu diwrnod cyntaf ar y mynyddoedd. Roedd Fabio yn gywir! Y tu allan i'w hystafelloedd gwelson nhw flanced o eira trwchus. Roedd yn brofiad mor gyffrous i bawb!! Cawson nhw frecwast blasus a gwisgon nhw yn eu salopets a'u cotiau cynnes yn barod i fynd. Teimlon nhw'n nerfus ond yn frwdfrydig iawn i ddechrau.

Dechreuodd y disgyblion i gyd ar y llethrau 'gwyrdd', ond erbyn diwedd yr wythnos aeth yr athrawon â nhw i fyny i'r llethrau 'coch'! Cawson nhw gymaint o hwyl! Bydd yr wythnos yn eu cof am byth.

Clymau

Roedd y gynulleidfa orlawn yng Nghanolfan Garth Olwg wedi eu gwefreiddio gan berfformiad Coleg y Drindod o sioe gerdd newydd 'Clymau' a gyfansoddwyd gan Eilir Owen Griffiths gyda'r geiriau gan Ceri Elen. Ongl wahanol ar stori Siwan yn oes Llywelyn Fawr yw'r sioe a bydd yn cael ei pherfformio ar Broadway, Efrog Newydd ym mis Mawrth.

JOB TRAC CYMRU

Arbenigwyr Recriwtio Siaradwyr Cymraeg

Canolfan Datblygu Busnes,
Ystad Ddiwydiannol
Trefforest,Pontypridd, CF37 5UR,
ffôn: 01443 843800,
www.jobtraccymru.com
www.safleswyddi.com

Edrych am waith?
Defnyddiwch eich iaith